O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1268 (Cy. 159)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Black Bridge, Caergybi, Ynys Môn i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Cyfyngiad o 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed	*11 Mai 2012*
Yn dod i rym	*21 Mai 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer — Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig, neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Mai 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Black Bridge, Caergybi, Ynys Môn i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Cyfyngiad o 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 05:00 o'r gloch ar 21 Mai 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;